

Ysbyty Gwynedd Adran Achosion Brys



**Yn dod â'ch diweddariad misol ar y gwaith gwella
yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**



Yn y rhifyn hwn:

Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd yn galw heibio

Adroddiad rheolwr y safle

Diolch yn fawr iawn i'r rhai a gododd arian

Elusen 2 Wish Upon a Star yn cynnig help llaw



@bcuhb



/betsihealthboard



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Vaughan Gething, Ysgrifennydd Iechyd yn galw heibio



Daeth Vaughan Gething, Ysgrifennydd Cabinet Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i ymweld â'n Adran Achosion Brys yn ddiweddar i dderbyn diweddariad am y gwaith.

Cafodd daith o amgylch ardal Cyfnod 2 y datblygiad a chael y cyfle i gyfarfod â staff yn yr adran.

Meddai: "Roeddwn yn falch o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ar ailddatblygiad Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd.

"Roedd cael cyfle i glywed yn uniongyrchol gan staff rheng flaen am sut maen nhw'n llwyddo i reoli'r heriau o gwmpas y gwaith adeiladu yn bwysig iawn i mi.

"Cefais wybod pa mor bwysig yw'r gwaith i'r staff a'r cleifion.

"Roedd y cynllun blaenorol yn cyfyngu ar y gallu i drin cleifion yn effeithiol a chydag urddas.

"Bydd yr ailddatblygiad yn galluogi ffyrdd newydd o weithio, a fydd yn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau a gofal priodol, gan leihau derbyniadau diangen.

"Bydd hefyd yn hwyluso gwell integreiddiad rhwng y Gwasanaeth MT y Tu Allan i Orlau a'r Adran Achosion Brys."

Drosodd i chi...

Rydym bob amser yn falch o gael adborth am Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd a'n gwasanaethau. Dyma enghraifft o rai o'r pethau y mae unigolion wedi dweud wrthym.



"Roedd yr holl staff y gwnes i ddod i gysylltiad â nhw ar fy ymweliad â'r AAB neithiwr yn wych. Diolch am eich help."



"Mi wnes i fynd â fy ngŵr i'r AAB, ac ni wnaethom aros dim mwy na 20 munud cyn cael ein gweld, er ei bod hi'n brysur iawn. Roedd Gwenan, y Brif Nyrs, yn anhygoel, tawelodd ein meddyliau ac esboniodd popeth, roeddem mor ofnus, ond gwnaeth ei hagwedd ofalgar i ni deimlo cymaint gwell."



"@YGEDBangor Diolch anferthol i'r staff anhygoel yn eich Adran Achosion Brys, a roddodd driniaeth i mi ar ôl fy awyrgludiad oddi ar yr Wyddfa oherwydd i mi dorri fy ffêr. Fe wnaethoch y profiad erchyll yn llawer iawn gwell. Rwy'n falch o ddweud y gwnes i lwyddo cyrraedd Corfu yr wythnos ganlynol!"

Diolch yn fawr iawn i'r rhai a gododd arian



Rydym bob amser yn cael ein synnu gan haelioni'r gymuned tuag at ein hysbyty.

Yn ddiweddar, cawsom y pleser o groesawu Malcolm Pitts i'r Adran Achosion Brys, a gododd £1,250 i ni ac Uned Alaw.

Nofiodd Malcolm gyfanswm o 14½ milltir a beciodd oddeutu 50 milltir fel rhan o'i ymgyrch codi arian.

Mae ei gyflawniad yn hyd yn oed mwy anhygoel, oherwydd mae'n parhau i ddioddef colli cof tymor byr yn dilyn damwain car yn 1981 lle cafodd anafiadau difrifol i'w ben a bu ar beiriant cynnal bywyd am dair wythnos.

Penderfynodd Malcolm godi arian er budd yr Adran Achosion Brys yn sgil ei antur ddiweddaraf i ddiolch i'r staff am y gofal a ddarparwyd iddo.

Meddai: "Rwyf wedi bod yn dioddef gyda diverticulitis am y pedair i bum mlynedd ddiwethaf.

"Ar rai adegau mae'r boen wedi bod mor ddifrifol rwyf wedi ymgwmpo gartref.

"Rwyf mor ddiolchgar i'r Adran AB am ofalu amdanaf mor dda ar yr achlysuron hyn, ac am roi sganiau, profion a meddyginiaethau i mi mor sydyn i sicrhau fy mod yn ôl ar fy nhraed cyn gynted â phosibl.

"Rwy'n gwybod bod gwaith gwella yn cael ei wneud yn yr adran, felly eleni mi wnes i benderfynu y byddwn yn codi arian i'w helpu i brynu rhywbeth ychwanegol roeddent ei angen a diolch iddynt am eu gwaith caled!"

Mae'r Adran Achosion Brys nawr yn cael budd o system cywasgiad y frest, a gynlluniwyd i helpu gwella canlyniadau i ddioddefwyr ataliad y galon ddisymwth, a gwella gweithrediadau i ymatebwyr meddygol.

Mae'r adran hon wedi gallu prynu'r cyfarpar hwn drwy rodd hael ar y cyd o £8,000 gan ein Elusen GIG Awyr Las ac Urdd Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus!



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Rheolwr y Safle, Iwan Lewis

Rydym nawr yn edrych ymlaen at gwblhau Cyfnod 2.

Rydym yn falch o ddweud bod y llawr, addurno a gosod y dodrefn nawr wedi'u cwblhau.

Mae'r tarmac wedi'i osod a'r sgriniau wedi'u tynnu.

Ar ôl gorffen cyfnod 2 y mis nesaf, bydd ardal olaf yr ailwampio yn dechrau a rhagwelir bydd wedi gorffen ym Mehefin 2019.



Elusen 2 Wish Upon a Star yn cynnig help llaw

Rydym yn falch o allu dweud y byddwn yn gweithio gyda 2 Wish Upon a Star, elusen anhygoel sy'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd sydd wedi colli plentyn neu oedolyn ifanc yn ddisymwth.

Nod yr elusen yw sicrhau bod gan bob Adran Achosion Brys yng Nghymru ystafell brofedigaeth addas i deuluoedd sy'n cael profedigaeth.

Dywedodd Rhian Mannings, sefydlwr yr elusen, a gollodd ei mab blwydd oed, George, ac yn drasig iawn, collodd ei gŵr Paul oedd yn 33 mlwydd oed, bum niwrnod yn ddiweddarach, ei bod wrth ei bodd yn cael bod yn rhan o'n gwaith gwella yn yr AAB.

Meddai: "Rydym yn edrych ymlaen am gael gweithio gyda'r tîm yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd, i sicrhau eu bod ag ystafell brofedigaeth ar gael i deuluoedd sy'n cael y profiad o golled disymwth.

"Mae hyn yn bwysig iawn, rydym wedi paratoi llawer o ystafelloedd yn y gorffennol ac maen nhw'n gwneud cymaint o wahaniaeth i deuluoedd.

Edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau'n symud ymlaen a dechrau ar y gwaith!"

Ewch i www.2wishuponastar.org i gael gwybodaeth bellach am yr elusen.

